





“Great service, it enables young children to play learn and interact in Welsh medium over the holidays especially beneficial to those children who do not have Welsh language at home”



“Having the children speaking Welsh during the Summer is essential”



“Mae’n wych eich bod yn cynnig gweithgareddau cyfrwng Gymraeg, yn enwedig o dan yr amgylchiadau! Diolch yn fawr iawn i chi am yr holl waith caled.”



Cadeirydd - Gwenno Huws

Fel mae pawb yn gwybod, mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn flwyddyn o newidiadau a chyfyngiadau dibendraw yn ein bywydau dyddiol. Ond er fod y cyfnod wedi bod yn heriol a chyfnewidiol, mae Menter Iaith Bro Morgannwg wedi llwyddo i gynnal, atgyfnerthu ac arloesi mewn amryfal ffyrdd. Mae'r staff wedi gweithio yn galed i greu cyfleodd difyr ac atyniadol i hyrwyddo'r Gymraeg ac fe welwyd ymateb ardderchog i'r ddarpariaeth. Diolch yn arbennig i Manon Ifan, y Swyddog Datblygu am ei hymroddiad diflino.

Rydym yn ddiolchgar hefyd, i'r holl bartneriaid sydd yn parhau i'n cefnogi ac i bob un o'r rhanddeiliaid ac i'r Bwrdd Rheoli am eu cymorth parod.

Yn ystod y flwyddyn fe enillodd y Fenter farc ansawdd Elusen Ddibynadwy. Mae hwn yn arwyddocaol gan ei fod yn rhoi sicrwydd bod asesydd annibynnol wedi cadarnhau fod Menter Iaith Bro Morgannwg yn dryloyw, yn atebol ac yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol. Bydd hyn yn ei dro yn rhoi sicrwydd i'n cyllidwyr a'n partneriaid.

Mae ein dyled yn enfawr i Manon Rees O'Brien, y Prif Weithredwr am ein harwain mor effeithiol drwy gydol y cyfnod anodd yma ac yn wir, yn ystod y dair blynedd a hanner diwethaf. Erbyn hyn, mae Manon a'r teulu yn symud pac am y gogledd ac fe ddymunwn yn dda iddi hi yn ei swydd newydd gan ddiolch iddi hi am ei chyfraniad neilltuoled ers 2018.

Dymunwn yn dda hefyd i Mr Heulyn Rees ein Prif Weithredwr newydd. Rydym yn hyderus fod y Fenter mewn dwylo newydd diogel ac y bydd Heulyn yn adeiladu ar y sylfaen gadarn a osodwyd eisoes gan sicrhau bod y Fenter yn mynd o nerth i nerth.

Chair - Gwenno Huws

As we all know, the last year has been a challenging time as there have been frequent changes and restrictions to our daily lives. But even though this period has been difficult, Menter Iaith Bro Morgannwg has succeeded in maintaining, reinforcing and innovating in a range of ways. The staff has worked hard to provide interesting and attractive opportunities to use the Welsh language and these have been very well received. We are particularly grateful to Manon Ifan, our Development Officer, for her tireless efforts.

Furthermore, we would like to thank all our partners who have continued to support us and also all stakeholders and the Management Team for their help and assistance.

During the year, Menter Iaith Bro Morgannwg has been awarded the Trusted Charity Status. This is significant because it means that an external assessor has confirmed that the charity is well run, conforms to legal requirements, and is accountable and transparent. This in turn will give reassurance and legitimacy to funders and partners.

We are indebted to Manon Rees O'Brien, the Chief Executive, for her highly effective leadership and her unique contribution during the past 3 and a half years and we wish her well as she takes up her new post in North Wales.

We also wish Mr Heulyn Rees, the new Chief Executive well in his new post. We are confident that Menter Iaith Bro Morgannwg is in capable hands and that Heulyn will build on the strong foundation that is already in place as it continues to grow from strength to strength.

Prif Weithredwr - Manon Rees-O'Brien

Hoffwn fynegi fy niolch i'r tîm ym Menter Iaith Bro Morgannwg am eu cyflawniadau rhyfeddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Gan edrych 'nôl ar brofiadau 2020-21, rwy'n teimlo y gall y tîm fod yn falch o'r ffordd yr ydym wedi ymateb i heriau'r pandemig. Mae'n ysbrydoledig i fod yn rhan o'r tîm hwn wrth i ni lywio ein ffordd trwy amgylchiadau mor anodd.

Mae ymroddiad ac ymrwymiad fy nghydweithwyr – y staff a'r Bwrdd - wedi ein galluogi i wneud cynnydd sylweddol eleni, ac rydym yn dod allan o argyfwng Covid-19 fel sefydliad cryfach, gyda gwell ymwybyddiaeth cyhoeddus, llywodraethiant a rheolaeth cyllid gadarn ynghyd â phrofiad helaeth mewn darparu'n ddigidol.

Yn ystod cyfnod cynnar y pandemig penderfynom symud y rhan fwyaf o'n clybiau a'n gweithgareddau rheolaidd ar-lein i barhau i gefnogi ein cynulleidfaoedd i gael mynediad at amrywiaeth eang o gyfleoedd cymdeithasol Cymraeg. Trwy gydol yr amser, rydym wedi bod yn canolbwyntio ar wasanaethu anghenion ein cwsmeriaid a'n cymunedau mor effeithiol â phosibl.

Wrth i ni ddarparu mwy o gyfleoedd wyneb yn wyneb yn 2021 rydym hefyd yn sicrhau bod cynigion digidol yn parhau er mwyn bodloni archwaeth amrywiol ein cwsmeriaid i ddod yn ôl at ei gilydd.

Mae wedi bod yn flwyddyn heriol tu hwnt ond mae Menter Iaith Bro Morgannwg wedi parhau i arloesi ac addasu i ddiwallu anghenion ein cymunedau. Rwy'n hyderus ein bod yn cyflawni ein gweledigaeth o hyrwyddo ac ehangu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ym Mro Morgannwg.

Wrth imi adael y Fenter hoffwn ddiolch unwaith eto i'm cydweithwyr am eu gwaith caled, eu hymroddiad, eu creadigrwydd a'u hegri yn ystod fy nghyfnod fel Prif Weithredwr, ac yn ddiarheul trwy gydol y cyfnod digynsail hwn.v

Chief Executive - Manon Rees-O'Brien

I would like to express my personal thanks to the team at Menter Iaith Bro Morgannwg for their extraordinary achievements during the past year.

Reflecting on the experiences of 2020-21, I feel that we can be proud of the way we've responded to the pandemic. It's both humbling and inspiring to have been part of this team as we've navigated our way through such challenging circumstances.

The dedication and commitment of my colleagues, both staff and Board, has enabled us to make substantial progress this year, and we come out of the Covid-19 crisis as a stronger organisation, with improved public awareness, strong governance, a robust financial position along with a step-change in digital delivery.


In the early stages of the pandemic we took the decision to move most of our regular clubs and activities online to continue to support our audiences in accessing a wider variety of Welsh language social opportunities. Throughout, we have focused on serving the needs of our customers and communities as effectively as possible.

As we move towards more face-to-face delivery in 2021 we're also continuing to provide a range of digital sessions. Our aim is to satisfy the varying appetite of our customers to come back together in person as they engage in Welsh language social opportunities.

It has been a challenging year in so many ways but Menter Iaith Bro Morgannwg has continued to innovate and adapt to meet the needs of our communities. I'm confident that we are delivering against our vision of promoting and expanding the social use of the Welsh language in the Vale of Glamorgan.

As I leave the organisation I would like to thank my colleagues for their hard work and dedication during my time as CEO, and in particular their creativity, innovation and endless energy throughout these extraordinary recent times.

TEULU / FAMILY



2 glwb teulu wythnosol – cyfartaledd o 20 babi/plentyn bob wythnos

2 weekly family clubs – average of 20 babies/small children each week



4

10-20

2 glwb teulu wythnosol – cyfartaledd o 20 babi/plentyn bob wythnos

2 weekly family clubs – average of 20 babies/small children each week

4 digwyddiad tymhorol i'r teulu – 10-20 teulu ym mhob un

4 seasonal events – 10-20 families attending

PLANT & PHOBL IFANC / CHILDREN & YOUNG PEOPLE



7 clwb wythnosol gyda dros 180 o blant pob wythnos / 7 weekly clubs with over 180 children each week

Bwrlwm

2 wythnos o chwarae agored mewn 4 lleoliad, a 15 sesiwn Digidol o Bwrlwm - Cyfartaledd o 30 o blant ym mhob un.

2 weeks of open access play in 4 locations, and 15 digital sessions of Bwrlwm with an average of 30 children each session.



Y GYMUNED THE COMMUNITY



Dros 1,800 o danysgrifwyr i'r e@chlysur / Over 1,800 subscribers to our e-newsletter

1000 o ddilynwyr ar / followers on Facebook

1,400 o ddilynwyr ar / followers on Twitter

700 o ddilynwyr ar / followers on Instagram

“Diolch o galon am yr holl ymdrech chi wedi rhoi mewn i Bwrlwm a'r Disgocwis ar-lein. Dyw hi ddim yn gyfnod hawdd ar hyn o bryd, ond mi nethoch chi lwyddo dod a gwen i'n wynebau a rhoi gweithgaredd ystyrlon i'r plant. Un o uchafbwyntiau y cyfnod clo yn sicr!”

OEDOLION ADULTS



7 cwrs undydd - 50 yn mynychu
7 one day courses - 50 attending

“As a non-Welsh speaking family we were so grateful for the opportunity for my 7-year-old son to be able to speak Welsh in a fun setting.”

menterbromorgannwg.cymru

Rhif Elusen: 1179555 / Rhif Cwmni: 08867706

@MenterBroMorgannwg @MIBroMorgannwg Menter_bro_morgannwg

